# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd Y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 23 Hydref 2012 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans (Cadeirydd), Julian Thompson-Hill, Eryl Williams, Bobby Feeley, Hugh Irving, Huw Jones, Barbara Smith a/ac David Smith.

Sylwedyddion: Y Cynghorwyr Ray Bartley, Joan Butterfield, Meirick Lloyd Davies a/ac David Simmons

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Gyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (HW), Cyd-bennaeth Priffyrdd ac Isadeiledd (SD), Cyfarwyddwr Corfforaethol Moderneiddio a Lles (SE), Prif Cyfrifwr (RW), Rhedydd Prosiect Rhanbarthol (Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol) (DE), Rheolwr Strategaeth Tai (SK), Gwasanaethau Democratig (SP), Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (RAH) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW).

## MUNUD O DAWELWCH

Siaradodd yr Arweinydd am y pedwar a fu farw'n ddiweddar mewn tân tŷ ym Mhrestatyn, sef Lee-Anne Shiers, ei mab Charlie, ei nai Bailey Allen a'i nith Skye Allen. Roedd yr Arweinydd am anfon cydymdeimlad at y teulu oll. Cafwyd munud o dawelwch er parch at y bywydau a gollwyd.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol na buddiant sy'n rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Materion yn Codi – Tudalen 7. Nododd y Cynghorydd David Smith fod dyddiad cyfarfod gyda TAITH am gael ei drefnu ac y byddai'r Cynghorydd Smith yn rhoi gwybod i'r Cabinet pan fyddai'r dyddiad wedi'i gadarnhau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2012 yn gofnod cywir a'u llofnodi gan yr Arweinydd.*

## 5 CYDWEITHIO RHWNG PRIFFYRDD A SEILWAITH CONWY A SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad i'w ystyried am argymhellion Bwrdd Rhaglen Cydweithio Priffyrdd a Seilwaith Conwy a Sir Ddinbych ar ôl ystyried "Cyd-wasanaeth Priffyrdd a Seilwaith Cwbl Integredig CBS Conwy a Chyngor Sir Ddinbych: Adroddiad am y Cynllun Gwasanaeth Drafft (Medi 2012)' ar 12 Medi 2012.

Bu'r Cynghorydd David Smith yn diolch yn ffurfiol i Danielle Edwards, y Rheolwr Prosiect Rhanbarthol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, am ei gwaith caled yn paratoi'r Adroddiad. Cadarnhaodd y Cynghorydd Smith ei fod ef a Chynghorydd Conwy Mike Priestley wedi cael eu holi ac wedi cael pob gwybodaeth drwy gydol y prosiect.

Roedd Prif Weithredwyr Conwy a Sir Ddinbych wedi comisiynu gweithgor i ystyried y dewisiadau a oedd ar gael. Roedd y grŵp yn cynnwys dau Gyfarwyddwr Corfforaethol – Sasha Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Hywyn Williams (Cyngor Sir Ddinbych) gyda chymorth Danielle Edwards (Rheolwr Prosiect), Swyddogion A151 a Phenaethiaid Gwasanaeth AD. Dyma oedd y dewisiadau i'w hystyried:-

- Arbed yn ariannol i'r ddau gyngor heb golli gwasanaethau pwysig i'r preswylwyr
- Cryfhau'r cydweithio y mae'r ddau Awdurdod Lleol wedi ymrwymo iddo ar lefel iswasanaeth, h.y. cludiant ysgol a goleuadau stryd
- Ystyried dewisiadau rhwng awdurdodau yn ogystal â dewisiadau mewn awdurdodau ar gyfer modelau darparu gwasanaeth
- Sicrhau bod y dewisiadau i'w hystyried yn gyson â datblygiadau rhanbarthol.

Byddai adroddiad y Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 18 Rhagfyr 2012.

Bu Danielle Edwards, Rheolwr y Prosiect, yn cydnabod gwaith ei chydweithwyr yn llunio'r adroddiad. Am y ddwy flynedd flaenorol, bu tîm prosiect o staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn gweithio ar y prosiect. Tasg yr adroddiad oedd astudio un maes cydweithio, sef Priffyrdd a Seilwaith. O ran yr adroddiad ei hun, cydnabuwyd nad oedd unrhyw weledigaeth glir na set glir o fuddion. Felly, tua dechrau mis Ebrill, bu Rheolwyr Priffyrdd a Seilwaith yn gwneud gwaith a gynhyrchodd weledigaeth gyffredin. Gwasanaethau oedd y pethau cyntaf i'w hastudio. Datblygwyd gweithdy dylunio a oedd yn cynnwys Penaethiaid

Gwasanaeth a chydweithwyr Uwch Dimau Rheoli Conwy a Sir Ddinbych. Aethpwyd â'r modelau wedyn i'r Rheolwyr Priffyrdd a Seilwaith yng Nghonwy a Sir Ddinbych i holi eu barn am ba adran o'r model a oedd yn gweithio ai peidio. Ar ôl cytuno ar sut fyddai'r gwasanaeth yn edrych, ystyriwyd y strwythur staff ac o'r diwedd ble fyddai'r gwasanaeth yn cael ei leoli. Byddai tri dewis yn cael eu hystyried:-

- Dewis 1 – Symud staff swyddfa'r Heath i safle Caledfryn
- Dewis 2 - Cadw safleoedd Caledfryn a'r Heath, gan ad-drefnu'r staff yn ôl meysydd gwasanaeth / iswasanaeth lle'n briodol
- Dewis 3 – Gosod staff o'r Heath a Chaledfryn mewn adeilad a ddefnyddid yn flaenorol yn lle swyddfa (Parc Busnes Llanelwy).

Diystyrwyd symud staff i adeilad yr Heath am fod yr adeilad yn anaddas. Diystyrwyd adeilad newydd hefyd oherwydd byddai hyn yn afresymol o ran cost.

Byddai symud staff yn cynnwys goblygiadau TGCh. Roedd Adran 10 o'r adroddiad yn cyfeirio at y model ariannol, a oedd yn dangos costau arfaethedig y 3 dewis.

Dyma fyddai'r costau llety ar gyfer pob un o'r tri dewis:-

- Dewis 1 – Byddai mân gostau llety wrth symud i Galedfryn
- Dewis 2 – nid oedd unrhyw gostau ychwanegol disgwyliedig
- Dewis 3 – byddai costau ar gyfer prydlesu adeilad.

Dangoswyd costau colli gwaith ar gyfer blwyddyn 1. Byddai 9 swydd newydd yn cael ei chreu. Roedd y swyddi newydd hyn wedi'u cyfateb i swyddi cyfredol gan leihau'r swyddi a gollir felly i 8.59 FTE (cyflogaeth amser llawn).

Diolchodd yr Arweinydd hefyd i'r Rheolwr Prosiect am yr adroddiad a soniodd nad oedd yr adroddiad yn amlygu'r drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar 11 Hydref, 2012.
Cadarnhaodd y Cynghorydd David Smith fod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau wedi cytuno i'r argymhellion yn yr adroddiad.

Ailadroddodd CD:C nad oedd integreiddio llwyr yn ariannol ymarferol i'r Priffyrdd a Seilwaith ond bod cydweithio at y dyfodol yn bosibl. Roedd cydweithio rhwng Conwy a Sir Ddinbych yn cael ei asesu o hyd. Cadarnhaodd CD:C hefyd fod trafodaeth fanwl wedi digwydd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau lle cytunasant i'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad.

Cadarnhaodd CD:C, pan fyddai'r adroddiad wedi'i ddiweddaru'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar 5 Rhagfyr, y byddent yn craffu ar argymhelliad 3.2 yn yr adroddiad yn enwedig o ran y goblygiadau staff. Roedd angen gwneud arbedion, ni waeth a fyddai cydweithio neu beidio. Byddai hyn yn cael ei wneud yn gliriach ym mis Rhagfyr.

Holodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies pam na fu unrhyw adroddiad ysgrifenedig gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau neu hyd yn oed golwg ar y cofnodion, a fyddai wedi bod yn ddefnyddiol i aelodau'r Cabinet.

Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai ef hefyd fod wedi hoffi gweld adroddiad ysgrifenedig ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, ond ei fod yn deall mai amseru'r cyfarfod oedd y rheswm pam nad oedd adroddiad ysgrifenedig ar gael, ac na fyddai'r cofnodion yn cael eu cadarnhau tan gyfarfod canlynol y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar 8 Tachwedd 2012.

Cytunwyd bod y diffyg adroddiad ysgrifenedig neu hyd yn oed copi o'r cofnodion ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn dangos diffyg yn y system. Cyflwynwyd cais a ofynnodd y byddai eitem wedi'i thrafod mewn cyfarfod Craffu penodol ac y byddai'n cael ei chyflwyno wedyn, er enghraifft, yn y Cabinet, y dylai fod rhyw adroddiad ysgrifenedig o'r drafodaeth a gafwyd, neu hyd yn oed y cofnodion heb eu cadarnhau, er mwyn i'r Aelodau gael gwybod yn llawn.

Bu'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill yn llongyfarch y Rheolwr Prosiect am yr adroddiad manwl a gyflwynwyd. O ran cydweithio, cadarnhaodd y Cynghorydd Thompson-Hill mai syniad cydweithio oedd y ffordd ymlaen o hyd er nad oedd integreiddio llwyr yn achos busnes dichonol ar yr achlysur hwn.

Mynegodd y Cynghorwyr eu siom na fyddai'r cydweithio Priffyrdd a Seilwaith yn mynd yn ei flaen rhwng Conwy a Sir Ddinbych.

Gofynnodd y Cynghorydd Eryl Williams am gopi o'r llythyr a anfonwyd at y Gweinidog Carl Sargeant,  ynghyd â chopi o'r ateb a gafwyd.
Cadarnhaodd yr Arweinydd nad oedd ateb wedi dod eto ond byddai'r ddau lythyr yn cael eu gwneud ar gael i aelodau'r Cabinet.

Dywedodd y Prif Weithredwr, o ran integreiddio llwyr, fod hon wedi bod yn wers allweddol a ddysgwyd ac mai'r gwall sylfaenol oedd y tybiwyd bod achos busnes wedi bodoli. Roedd uno gwasanaethau yn brosiect drud. Roedd costau ymlaen llaw, yn arbennig i ariannu colli swyddi. Byddai pwysau gan y Gweinidog yn parhau i gynyddu. Roedd llunio cynllun busnes yn sicrhau gwell gwasanaeth a gwasanaeth a fyddai'n fwy diwastraff i'w gynnal.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno:-*

*(i)* *gan nad yw'r Achos Busnes yn gwneud achos clir dros Wasanaeth Priffyrdd a Seilwaith cwbl integredig, nad yw Conwy a Sir Ddinbych yn mynd ymlaen â'r dewis hwn.*

*(ii)* *bod Conwy a Sir Ddinbych yn parhau i chwilio am gyfleoedd pellach i resymoli rheolaeth, lleihau costau a gwella gwasanaethau i breswylwyr drwy:*

- *Gryfhau'r meysydd hynny o iswasanaeth sydd o dan reolaeth sengl*
- *Archwilio'r meysydd iswasanaeth Priffyrdd a Seilwaith lle gallai cydweithio fod o fudd i'n preswylwyr*
- *Archwilio cyfleoedd lleol (penodol i Awdurdod) i gael trefniadau cydweithio a chydreoli rhwng gwasanaethau presennol*
- *Cynnal a datblygu ein hymrwymiad i'r datblygiadau rhanbarthol ar gludiant a allai sicrhau buddion ychwanegol, os cânt eu cyflawni'n dda. Bydd angen i benderfyniadau fod yn seiliedig ar achos busnes cadarn dros newid o ran elfennau felly a*

(iii) *bod y Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn rhoi gwybod i'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2012 am y gwaith sy'n gynhenid yn Argymhelliad (ii)*

## 6 ADRODDIAD DIWEDDARU ARIANNOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr Adroddiad Cyllid gan roi manylion arbedion a chyllideb refeniw'r Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2012/13 fel ar ddiwedd mis Medi 2012. Roedd yr adroddiad hefyd yn diweddaru'n gryno'r Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

Cafodd pob eitem a ddosbarthwyd fel un “ar y gweill” ei hadolygu yn ystod y broses herio gwasanaeth a chadarnhawyd y byddai'r rhain yn cael eu cyflenwi drwy gydol y flwyddyn ariannol.

Roedd ysgolion wedi dangos tanwariant bach wedi'i ragamcanu. Roedd llawer o waith i'w wneud ynghylch yr ysgolion hynny mewn anhawster ariannol. Roedd gan yr ysgolion hynny gynlluniau adfer yn eu lle ac roeddent wrthi'n gweithio tuag at y targedau a osodwyd yn y cynlluniau hynny.

Wrth baratoi cyllideb 2012/2013, bu'n rhaid gwneud nifer o dybiaethau ynghylch pwysau y byddai'r Cyngor yn eu hwynebu a rhoddwyd cyllidebau priodol yn eu lle. Dwy enghraifft o bwysau mawr oedd tebygolrwydd codiad cyflog i staff a chostau ynni'n cynyddu'n sylweddol. Fel y cyfryw, cyllidodd y Cyngor tua £1.5miliwn i dalu'r costau hynny. Ni ddigwyddodd y codiad cyflog a gyllidwyd i staff. Cadarnhawyd bod cyflogau'n cael eu rhewi ar ôl gosod y gyllideb ac felly roedd gan y Cyngor gyllideb ar gyfer codiad cyflog na fyddai'n digwydd.

Cyllidwyd y cynnydd mewn prisiau ynni yn wreiddiol yn 20% ond roedd yn agosach at 10% ac felly nid oedd y gyllideb ychwanegol yn ofynnol.

Roedd £1.7miliwn o arian ar gael i Gyngor Sir Ddinbych ac, yng ngoleuni trafodaethau a gafwyd am y Cynllun Corfforaethol newydd ac i ddarparu ar gyfer blaenoriaethau datblygol, cytunwyd y byddai buddsoddiad mawr yn digwydd dros y 5/6 mlynedd nesaf. Byddai'r £1.7miliwn yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn.

Cymeradwyodd Swyddfa Archwilio Cymru gyfrifon blynyddol y Cyngor. Bu'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill yn diolch yn ffurfiol i Paul McGrady, Richard Weigh a'r holl staff a fu'n paratoi'r cyfrifon.

Ychwanegwyd cyfalaf wrth gefn at brosiect Pont Cerddwyr a Beicio Harbwr y Rhyl, ynghyd â chyfraniad pellach o £250,000 gan SUSTRANS.

Cafwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y Rhyl yn Symud Ymlaen. Roedd Caniatâd Ardal Gadwraeth wedi'i roi gan Lywodraeth Cymru i ddymchwel The Honey Club yn y Rhyl. Fodd bynnag, roedd gofyn i'r Cyngor ganiatáu ar gyfer chwe wythnos o gyfnod apelio.

Roedd y crynodeb o gyllid a ddygwyd ymlaen yn nodi £200,000 a oedd heb ei ddyrannu eto.  Y cydweithwyr a fyddai'n penderfynu ble i roi hwn yn y cronfeydd wrth gefn.

Gofynnodd y Cynghorydd Eryl Williams am wybodaeth am y gwariant ar briffyrdd ar gyfer y flwyddyn hon. Cytunodd y Cydbennaeth Priffyrdd a Seilwaith i roi'r wybodaeth hon.

Roedd Tŵr Awyr y Rhyl yn ôl o dan reolaeth Cyngor Sir Ddinbych. Roedd Rheolwr y Rhyl yn Symud Ymlaen a'i dîm yn gweithio ar y portffolio eiddo a'r costau refeniw.

Bu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Moderneiddio a Lles, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn fras am Wasanaethau Oedolion. Roedd darn o waith yn digwydd ar draws Awdurdodau Lleol yn edrych ar gynllun gwariant 3 blynedd. Nid oedd rhagor o fanylion ar gael am y prosiect ar y pryd.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol, fod trafodaethau helaeth yn digwydd am Gyfnod 3 Gwaith Amddiffyn yr Arfordir. Cafwyd materion ynghylch llifogydd ac roedd trafodaethau pellach yn parhau gyda Grŵp Scarborough.

Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley wrth yr Aelodau fod llifogydd, yn ôl rhagfynegiadau'r adroddiad newyddion, yn mynd i gynyddu yn y dyfodol. Roedd angen i Awdurdodau Lleol wybod am hyn a derbyn y ffaith y byddai angen cyllid ychwanegol i ymdrin â'r peth. Cadarnhaodd y Cynghorydd David Smith fod cynllun llifogydd ar gael a nododd yr ardaloedd llifogydd tebygol yn Sir Ddinbych. Cytunodd y Cynghorydd Smith i gyflwyno'r cynllun i gyfarfod yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau'n nodi'r targedau arbedion a'r cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ac yn symud ymlaen mewn perthynas â'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni.*

## 7 EIDDO REEMA, GALLTMELYD - MODEL CYLLID A DEWISIADAU ADEILADU

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Irving yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Cabinet am yr eiddo REEMA ar Ffordd Tŷ Newydd a Rhodfa Hendre yn Galltmelyd sy'n methu ar hyn o bryd â chyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

Gwnaethpwyd eiddo REEMA o adeiladwaith parod heb fod yn draddodiadol. Y broblem gydag ailwampio posibl oedd na fyddai'n mynd i'r afael â phroblemau dylunio'r eiddo. Roeddent wedi'u hadeiladu'r ffordd anghywir ac ar waelod llethr heb unrhyw leoedd parcio.

Daethpwyd â'r adroddiad i'r Cabinet am fod y tenantiaid yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am bosibilrwydd dymchwel/ailwampio eu cartrefi.

Cafwyd tri chyfarfod â'r tenantiaid ynghylch y polisi trosglwyddo dros dro. Byddai'r tenantiaid yn cael eu rhoi'n awtomatig ar frig y rhestr dai am eiddo dros dro. Yn anffodus, dim ond 12 eiddo addas a oedd wedi dod yn wag yn ystod y 12 mis

diwethaf. Felly, roedd yn bosibl y gallai gymryd hyd at 2 flynedd i ddod o hyd i ddewisiadau tai addas i drosglwyddo tenantiaid dros dro.

Cynigiwyd aros nes bod pob eiddo ar y safle'n wag ac yna byddai'r dymchwel yn digwydd.

Gofynnodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies am gynllun o'r ystâd er cyfeirio'n rhwydd ato.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno:-*

*(i)* *I'r Cyngor ddymchwel yr eiddo REEMA a sicrhau'r safle gan ddisgwyl ailddatblygu.*
*(ii)* *I'r Cyngor barhau â'i drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i archwilio'r posibilrwydd am gymhorthdal tai i ddatblygu Tai Cyngor wedi'u hadeiladu o'r newydd ar y safle.*
*(iii)* *I'r Cyngor weithio gyda phreswylwyr a allai ddymuno dychwelyd i safle ar ei newydd wedd i sicrhau y darperir ar gyfer eu hanghenion yn rhan o unrhyw ddatblygiad newydd.*
*(iv)* *I'r Cyngor nodi darpariaethau Polisi Trosglwyddo tenantiaid REEMA Dros Dro.*

**Yn y man hwn (11.30 a.m.) cafwyd egwyl.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.45 a.m.**

## 8 PENODI CYNGHORWYR I GYRFF ALLANOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans (yr Arweinydd) adroddiad yn cynnig enwebiadau Aelodau i gynrychioli Cyngor Sir Ddinbych ar nifer o gyrff allanol. Roedd penderfyniad yn ofynnol gan y Cabinet ynghylch pa gyrff allanol y byddai Cyngor Sir Ddinbych yn enwebu Aelodau i gynrychioli'r Cyngor arnynt.

Dywedodd yr Arweinydd fod adolygiad wedi digwydd ym mis Mai 2012 a bod rhestr o'r holl sefydliadau allanol â chynrychiolwyr o Gyngor Sir Ddinbych wedi'i llunio.

Ymgynghorwyd â'r Arweinydd, yr Uwch Dîm Arwain a Grwpiau Gwleidyddol ynghylch y sefydliadau allanol a'r enwebiadau arfaethedig.

Bu'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig yn egluro'r 3 gwahanol restr a roddwyd i'r Cabinet, fel a ganlyn:-

- Rhestr 1 – Sefydliadau yr ystyriwyd ei bod yn gorfforaethol fanteisiol i Gyngor Sir Ddinbych gael cynrychiolydd enwebedig arnynt. Cafwyd adborth gan Arweinwyr Grŵp a oedd yn credu bod y sefydliadau hyn yn dal yn berthnasol ac enwebwyd y cynrychiolwyr fel yr oeddent ar y rhestr.
- Rhestr 2 – Roedd yn cynnwys sefydliadau yr oedd gofyn i'r Cabinet benderfynu a fyddent yn aros ar y rhestr. Cytunwyd y byddai'r sefydliadau'n

aros ar y rhestr ac eithrio Awdurdodau Lleol Di-niwclear yr oedd gofyn eu trafod ymhellach.

- Rhestr 3 – Nid oedd gofyn enwebu aelodau i'r sefydliadau a enwyd ar Restr 3, ond pe byddai gan aelod ddiddordeb personol yn y sefydliad, gallai fynychu'n bersonol. Roedd nifer o'r sefydliadau ar y rhestr yn anweithredol erbyn hyn.
- Cynigiodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig gyflwyno adroddiad ar Gyrff Allanol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

***PENDERFYNWYD*** *ar ôl i'r Cabinet ystyried Rhestr 1 (cyrff allanol yr ystyrir ei bod yn hanfodol neu'n gorfforaethol fanteisiol cynrychioli Sir Ddinbych arnynt) a Rhestr 2 (sefydliadau eraill y gellid penodi cynrychiolwyr y Cyngor iddynt), cytuno:-*

*(a)* *I gymeradwyo'r penodiadau a argymhellwyd a ddangosir yn Rhestr 1*

*(b)* *I gymeradwyo'r sefydliadau yn Rhestr 2 fel rhai sydd â chynrychiolaeth y Cyngor ac eithrio Awdurdodau Lleol Di-niwclear a fyddai'n destun ystyriaeth bellach.*

*(c)* *I benodi'r Cynghorwyr perthnasol i'r sefydliadau a gymeradwywyd gan y Cabinet o Restr 2.*

## 9 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Flaenraglen Waith y Cabinet i'w hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.*

## 10 CONTRACT 8 – RHAGLEN GWELLA TAI

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Irving yr adroddiad cyfrinachol i ofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu Contract 8 o'r Rhaglen Gwella Tai yn ffurfiol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno i'r argymhelliad i ddyfarnu'r contract ar ôl gwneud gwiriadau dilysu boddhaol o gyflwyniad tendr y contractwr. Mae lledaeniad prisiau tendr yn arddangos bod tendr cystadleuol wedi'i gael sy'n ddilys ac yn addas i gontract o'r math hwn. Y contract hwn yw'r contract terfynol yn y cytundeb fframwaith a bydd yn sicrhau bod pob eiddo'n cydymffurfio'n llawn â Safon Ansawdd Tai Cymru.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 p.m.**